Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

# Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig

## Anamaethyddol

## Nodiadau Cyfarwyddyd

© Hawlfraint y Goron 2021 Rhif ISBN: 978-1-80195-182-1

# Contents


**CYFLWYNIAD** ........ 3
**AMCANION STRATEGOL A THEMATIG** ........ 4
**PWY SY'N CAEL GWNEUD CAIS?** ........ 4
**GWEITHGAREDDAU CYMWYS** ........ 4
**GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS** ........ 5
**COSTAU CYMWYS** ........ 5
**COSTAU ANGHYMWYS** ........ 6
**CYFRADD A THROTHWY UCHAF Y GRANT** ........ 7
**CYMORTH GWLADWRIAETHOL** ........ 8
**DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS** ........ 8
**Y GOFYNION ALLWEDDOL** ........ 9
**THEMÂU TRAWSBYNCIOL** ........ 9
**SUT MAE GWNEUD CAIS** ........ 10
**Y BROSES ASESU DAU GAM** ........ 11
- **Cam 1 – Eich Asesu ar gyfer eich Dewis** ........ 11
  - **Datblygu Cynaliadwy – Cyweddu Strategaethau** ........ 12
  - **Trosiant – Addasrwydd yr Ymyrraeth** ........ 12
  - **Arloesi – Cyflawni** ........ 13
  - **Cyflogaeth – Cynaliadwyedd Hirdymor** ........ 13
  - **Gwerth am Arian – Gwerth am Arian** ........ 13
- **Cais sy'n llwyddiannus yng Ngham 1** ........ 14
- **Cam 2 – Arfarniad llawn o'r cais ar ôl ei ddewis** ........ 15
  - **Cynllun y Busnes/Prosiect** ........ 15

**AMODAU'R GRANT** ........ 16
**GOFYNION CAFFAEL A THENDRO CYSTADLEUOL LLYWODRAETH CYMRU** . 18
**TALU GRANT** ........ 18
**HAWLIADAU ANGHYWIR A CHOSBAU** ........ 19
**TROSEDDAU** ........ 19
**MONITRO PROSIECTAU** ........ 20
**DIWEDD Y CYNLLUN BUDDSODDI MEWN BUSNESAU GWLEDIG (ANAMAETHYDDOL)** ........ 20
**GWEITHDREFN APELIO** ........ 20
**GWEITHDREFN GWYNO** ........ 21
**Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA: HYSBYSIAD PREIFATRWYDD** ........ 22
**CYSYLLTIADAU** ........ 23


Rhif y Fersiwn: 2
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

## CYFLWYNIAD

Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn egluro'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Anamaethyddol (RBIS (Anamaethyddol)) a'r math o brosiectau a allai fod yn gymwys am gymorth grant. Darllenwch nhw'n ofalus. Os byddwch yn credu wedyn y gallai eich cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys am gymorth o dan y cynllun hwn, darllenwch yr adran 'Sut i Ymgeisio' isod.

Bydd y cyfnod ymgeisio yn agor ar 26 Ebrill 2021 ac yn cau ar 4 Mehefin 2021.

Y dyraniad cyllid ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn yw £3m.

Mae'r RBIS (Anamaethyddol) yn cyfrannu at gostau buddsoddi cyfalaf ac yn cefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n cyfrannu at un neu ragor o'r canlynol:

a) arallgyfeirio'r economi wledig,
b) datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch naturiol,
c) gwneud busnesau gwledig yn fwy cynhyrchiol, effeithiol a chystadleuol.

Mae'r cynllun yn cael helpu cwmnïau anamaethyddol micro a bach, hen a newydd ledled Cymru, gan gynnwys ffermwyr neu aelodau aelwydydd fferm sy'n arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos bod marchnad hyfyw i'w cynnyrch ac na fyddai'r prosiect yn gallu mynd rhagddo heb y grant. Cynllun ar sail disgresiwn yw hwn. Byddai swm y grant a gynigir yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, a byddai bob amser y **swm lleiaf y byddai ei angen** i'r buddsoddiad allu mynd rhagddo.

Gellir defnyddio'r grant ar gyfer buddsoddi cyfalaf, am ragor o fanylion, darllenwch yr adran "Costau Cymwys" isod.

Ar gyfer rownd hon yr RBIS (Anamaethyddol), dim ond ar RPW Ar-lein y gallwch wneud cais am y grant. Caiff y cais ei asesu mewn dwy ran. Bydd y rhan gyntaf yn ei asesu ac yn rhoi sgôr iddo ar sail y meini prawf dewis a gyhoeddwyd, ac yna os caiff ei ddewis, caiff arfarniad llawn i wneud o'ch cais.

Braslun o'r cynllun a'r ffordd y caiff ei redeg yn unig a geir yma, ac mae'n bosibl y bydd y rheolau manwl o ran y meini prawf cymhwysedd yn newid.

**Rhaid dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a'r gofynion ar gyfer Caffael a Thendro Cystadleuol ar y ddolen i'r:**

**Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus - Nodiadau Canllaw Technegol**

**Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus - Cofrestr a Chofnod**

## AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

- Bydd gofyn i ymgeiswyr i'r cynllun RBIS (Anamaethyddol) fynd i'r afael ag amcanion strategol a thematig Llywodraeth Cymru a rhaid i'r gweithgareddau fynd i'r afael â'r Meysydd Ffocws canlynol o fewn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

  **Maes Ffocws 6:** Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economïau ardaloedd gwledig, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

  a) hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi;

  Mae RBIS (Anamaethyddol) yn cynnwys costau buddsoddi cyfalaf ac yn cefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n cyfrannu at un neu fwy o'r amcanion strategol canlynol:

  b) arallgyfeirio yr economi wledig,
  c) datblygu cadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch naturiol,
  d) cynyddu cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chystadleurwydd busnesau gwledig.

Rhaid i weithgareddau o dan gynllun yr RBIS (Anamaethyddol) fynd i'r afael ag o leiaf un o'r amcanion thematig canlynol:

- hyrwyddo a datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch naturiol
- datblygu delwed eco-gyfeillgar sy'n seiliedig ar ddulliau cynhyrchu cynaliadwy
- cryfhau cadwyni cyflenwi iddynt allu gwrthsefyll newidiadau yn y farchnad
- hyrwyddo arloesedd technolegol cynnyrch a phrosesau
- cynnig cyfleoedd i ddatblygu gyrfa a sgiliau ar bob lefel
- arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol er mwyn cynnig incwm arall i fusnesau i'w gwneud yn fwy cynaliadwy

## PWY SY'N CAEL GWNEUD CAIS?

Mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan unigolion sy'n dymuno dechrau busnes anamaethyddol newydd ac unig fasnachwyr newydd/presennol ac/neu fusnesau sydd eisoes yn cyfrannu neu'n dymuno arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol. Mae maint y busnes wedi'i gyfyngu i fentrau bach a micro (mae busnesau micro'n cyflogi llai na 10 o weithwyr a busnesau bach yn cyflogi llai na 50 o weithwyr).

## GWEITHGAREDDAU CYMWYS

Mae cymorth o dan y cynllun hwn yn cynnwys buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau anamaethyddol, gan gynnwys prosesu a marchnata cynnyrch nad ydynt yn Atodiad 1 (waeth beth yw'r mewnbwn – gweler Atodiad 1 isod), nad ydynt yn gymwys o dan gynlluniau eraill e.e. y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd), y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, y Cynllun Buddsoddi mewn

Busnesau Pren, y Grant Busnesau Fferm, y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (nid yw'r rhestr yn un gyfan).

## GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

Mae nifer o fuddsoddiadau a chynhyrchion nad ydynt yn gymwys i gael cymorth:

- buddsoddiadau ar lefel manwerthu – a ddiffinnir fel prynu nwyddau ar gyfer eu hailwerthu neu i'w defnyddio ar gyfer darparu gwasanaeth ac iddo werth ychwanegol;
- buddsoddiadau i brynu eitemau newydd yn lle rhai a brynwyd yn y gorffennol gyda chymorth grant yr UE neu Lywodraeth Cymru (o fewn yr un busnes);
- buddsoddiadau at ddibenion storio, cludo a/neu ddosbarthu;
- cynnyrch pysgodfeydd a dyframaethu;
- gweithgareddau sy'n ymwneud â mewnbwn cynnyrch sy'n dod o dan Atodiad 1 i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd ac y bernir eu bod yn gymwys am yr FBIS a/neu RBIS (Bwyd);
- prosesu contractau, oni gellid dangos bod y prosiect o werth a budd uniongyrchol i'r gadwyn gyflenwi leol/Gymreig;
- prosiectau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, prosesu, dosbarthu a defnyddio cnydau biomas;
- prosiectau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu biodanwyddau sy'n deillio o fwyd;
- cynnyrch lle nad oes modd dangos marchnad arferol realistig ar ei gyfer;
- storfeydd ymyrraeth;
- storio cynnyrch terfynol mewn warws a/neu rewgell a storfeydd oer fel buddsoddiad ar wahân nad yw'n cynnwys gweithgareddau prosesu;
- ailwampio safleoedd a/neu gyfarpar i fodloni gofynion sy'n deillio o gamau gorfodi statudol.
- gwasanaethau contractio amaethyddol a choedwigaeth

## COSTAU CYMWYS

Gall y cymorth o dan y cynllun hwn gynnwys asedau diriaethol fel tir, adeiladau, peiriannau, a chyfarpar, yn ogystal ag asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau patent, a thrwyddedau a ffioedd ar gyfer gwasanaethau technegol ac ymgynghori:

- adeiladu, caffael, neu wella eiddo sefydlog, gyda thir ond yn gymwys cyn belled nad yw'n fwy na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi;
- prynu peiriannau a chyfarpar newydd hyd at werth yr ased ar y farchnad;
- costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir ato ym mhwyntiau (a) a (b), fel ffioedd pensaer, peiriannydd neu gwmni ymgynghori, ffioedd sy'n ymwneud â chyngor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd, cyn belled nad ydynt yn fwy na 10% o gyfanswm y costau cymwys;

- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol, a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.
- Ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau dylunio technegol eraill, arolygon safleoedd a ffioedd proffesiynol; ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio; mae ffioedd yr eir iddynt am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydsyniadau hefyd yn gymwys hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u talu cyn eu cymeradwyo ar yr amod eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect.
- Mae offer ail-law yn gymwys (ar gyfer BBaChau yn unig) lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:
- mae'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch bresennol;
- yn addas i'r diben;
- sydd ag o leiaf bum mlynedd o ddisgwyliad oes ar ôl.

## COSTAU ANGHYMWYS

Mae’r eitemau canlynol yn enghreifftiau o wariant sy’n **anghymwys** ar gyfer cymorth grant. <u>Nid yw hon yn rhestr derfynol</u> a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos.

- prynu tir, gan gynnwys treuliau cysylltiedig, lle mae’r costau’n fwy na 10% o gyfanswm y buddsoddiad
- prynu adeiladau sydd wedi’u defnyddio o’r blaen at yr un diben
- unrhyw waith ffisegol sydd wedi’i wneud ar y safle cyn dyddiad dechrau awdurdodedig y gwaith **(os bydd unrhyw waith o’r fath wedi’i wneud, gall y dyfarniad cyfan gael ei wrthod)**
- gwaith dros dro nad yw’n **uniongyrchol** gysylltiedig â gweithredu’r prosiect
- prynu cerbydau ar gyfer cludo allanol (mae wagenni fforch godi, neu gyffelyb, a ddefnyddir ar gyfer cludo a chario mewnol yn gymwys)
- cyfalaf gweithio
- TAW y gellir ei hawlio nôl
- costau cynnal a chadw
- eich costau cyfarpar a llafur eich hun
- cyfnewid peiriannau neu gyfarpar am rai newydd yr un fath
- nwyddau traul (eitemau sy’n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer)
- cyfarpar a dodrefn swyddfa cyffredinol
- costau refeniw fel cyflogau ar gyfer staff allweddol; hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr a staff allweddol; mynychu ffeiriau masnach; treuliau cyfarwyddwyr allanol
- costau sy’n gysylltiedig â chontract lesio fel elw leswyr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu gyfleusterau cymorth ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu daliadau eraill

- gorbenion sy’n cael eu dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau llawer uwch na’r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwaith tebyg a gyflawnir gan yr ymgeisydd
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant
- nwyddau
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- eitemau digwyddiadol
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- buddrannau
- taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwyir)
- taliadau gwasanaeth sy’n deillio o lesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy’n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy’n ymwneud â dirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- iawndal a delir i drydydd partïon am ddifeddiant, cnydau heb eu cynaeafu ac ati
- drwgddyledion sy’n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchenogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy’n gysylltiedig ag unrhyw un o’r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- adloniant
- dirwyon a chosbau statudol
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha

Rhaid i gostau sy’n gysylltiedig â phrynu a/neu adnewyddu a/neu addasu unrhyw adeilad fod yn briodol i faint, natur a bwriad y prosiect. Rhaid i'r grant ganolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau anamaethyddol ar gyfer marchnad fasnachol, felly ni ellir defnyddio'r grant at ddiben caffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cynnal y gweithgarwch arfaethedig.

Dim ond os ydynt yn gysylltiedig â phrynu cyfarpar a phan fo’r gost wedi’i thalu’n gywir gan yr hawliwr y mae costau’n gymwys i gael cymorth grant. Gan hynny, nid yw costau llawn unrhyw gyfarpar sy’n cael ei sicrhau dan drefniant hurbwrcasu neu les neu unrhyw drefniant ariannol arall yn gymwys am gymorth grant.

## CYFRADD A THROTHWY UCHAF Y GRANT

Cyfradd uchaf y grant a gynigir i unrhyw brosiect buddsoddi unigol fydd 40% o gyfanswm y costau cymwys.

Trothwy uchaf y grant ar gyfer pob cais newydd gan unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £50,000 a'r trothwy isaf yw £5,000.

Daw swm y grant o gyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus i'r prosiect buddsoddi sy'n cynnwys arian gan yr UE a chyllid ychwanegol at gyllid yr UE gan Lywodraeth Cymru.

Os ceir arian o gronfeydd cyhoeddus eraill yr UE neu'r DU i helpu gyda chostau prosiect, byddwn yn tynnu'r swm hwnnw o'r grant RBIS (Anamaethyddol).

## CYMORTH GWLADWRIAETHOL

Mae grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn yn gymorth sydd o fewn cwmpas y fframweithiau Cymorth Gwladwriaethol, Mae Erthyglau 107, 108 a 109 o'r TFEU yn berthnasol i gymorth a roddir at ddibenion datblygu gwledig o dan Raglen Cymunedau Gwledig– Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020.

Mae grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn yn gymorth sy'n cydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd gan eu bod yn parchu'r amodau a nodir yn Erthygl 14 Rheoliad y Comisiwn 651/2014 (Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol) (SA 60339 – Cynllun Cymorth Cyflogaeth a Chymorth Buddsoddiad Cyfalaf Llywodraeth Cymru).

## DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

Caiff pob achos ei asesu yn ôl ei werth posibl i'r economi wledig, i ba raddau y bydd y buddsoddiad yn datblygu'r sector y mae'n canolbwyntio arno, a'r posibilrwydd o allu cynnal y farchnad a/neu'r busnes yn y tymor hwy.

Bydd y drefn ddewis gychwynnol yn cadarnhau bod yr holl feini prawf cymwys wedi'u bodloni:

Yr angen am y gweithgarwch:
- bydd angen yr allbynnau a chânt eu cyflawni yn unol ag allbynnau'r Mesur.
- mae'n ychwanegu at weithgarwch sy'n bod, heb gymryd ei le na'i ddyblygu'n ddiangen.

Yr angen am y cyllid:
- ni all fynd yn ei flaen heb y cymorth.
- nid yw'r costau'n ormodol o ystyried natur y gweithgarwch.

Y gallu i sicrhau:
- busnes hyfyw
- Gwiriadau cydymffurfio ar gynigion ar gyfer busnesau newydd
- cydymffurfiaeth â'r gyfraith.
- prosiect sy'n ariannol hyfyw ac yn gynaliadwy.

- cefnogaeth y prif randdeiliaid a'u hymrwymiad iddo.
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso ar gyfer y prosiect.

Pwysica'n y byd yw'r buddsoddiad yn y prosiect a'i gyfraniad at yr amcanion strategol a thematig dan sylw, mwya'n y byd yw'r tebygolrwydd y caiff ei argymell ar gyfer ei ddewis.

## Y GOFYNION ALLWEDDOL

Fel arfer, dim ond un prosiect buddsoddi mewn datblygu busnes a fydd gan yr ymgeisydd ar y gweill ar unrhyw adeg benodol.

Fel arfer, ni fydd prosiect buddsoddi yn para mwy na 18 mis.

Mae marchnad arferol (hyfyw) ar gyfer cynnyrch eich prosiect.

Ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant.

Swm y grant y gofynnir amdano yw'r swm isaf o gyllid llenwi bwlch sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd rhagddo.

Mae'n rhaid i geisiadau ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:

- Mae caniatâd cynllunio llawn wedi'i dderbyn, lle bo angen hynny;
- Mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i roi yn ôl yr angen;
- Rhaid i fusnesau sy'n bodoli'n barod gadarnhau hyfywedd economaidd y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer y tair blynedd cyn dyddiad y cais, a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect.

  Bydd angen i fusnesau newydd sbon ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiadau'r person/personau, ynghyd â thystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddilysu'r cynllun busnes a chynigion y prosiect:
- Cydymffurfiaeth â chyfraith y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfle cyfartal a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol
- Rhaid recriwtio staff allweddol drwy gystadleuaeth deg ac agored
- Cydymffurfiaeth â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â'r amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a'r holl safonau iechyd a diogelwch perthnasol
- Y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael o fewn y busnes
  - Cyrraedd neu ragori ar y sgôr 'Rhagorol' o dan fframwaith asesu amgylcheddol BREEAM, neu sgôr gyfwerth, ar gyfer pob adeilad newydd;
  - Ceisio sicrhau allyriadau di-garbon ar gyfer pob adeilad newydd a adeiladwyd o 2011 ymlaen.

## THEMÂU TRAWSBYNCIOL

Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu'r Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod rhaid i bob prosiect a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio'r Themâu Trawsbynciol, sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Cydraddoldeb Rhywiol a Datblygu Cynaliadwy.

Mae angen i'r themâu gorfodol hyn gael eu hintegreiddio yn y gwaith o gynllunio a datblygu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, ac yn y gweithgarwch a gefnogir drwy'r cronfeydd. Mae hyn yn cynnwys Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Yn ogystal â'r ddwy thema drawsbynciol a orfodir gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol hefyd yn thema orfodol ar gyfer rhaglenni Llywodraeth Cymru.

Bwriad y themâu trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth, cynyddu'r cyfraddau cyfranogiad a lliniaru effeithiau andwyol. Dylai hyn fod o gymorth i weithrediadau symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a datblygu systemau sy'n cefnogi'r arferion gorau.

Mae rhagor o ganllawiau ar gael yma: Wefo Publications - Cross Cutting Themes Key Document European Social Fund

## SUT MAE GWNEUD CAIS

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw na ddylid dewis prosiectau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru − Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 o dan system y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, y bwriad yw y bydd cynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru − Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn agor a chau ar gyfer ceisiadau bob hyn a hyn drwy gydol oes y rhaglen newydd, gan ddibynnu ar y dyraniadau ariannol a fydd ar gael i'r rhaglen.

Bydd y ceisiadau a gyflwynir yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd a disgwylir y bydd galw mawr am y grant sydd ar gael. Caiff cynigion y prosiect eu hasesu yn ôl y meini prawf a byddant yn dangos gwerth disgwyliedig y buddsoddiad neu'r prosiect a'r cyfraniad y disgwylir iddynt ei wneud at amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Rhaid ymgeisio am RBIS (Anamaethyddol) trwy Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein yn unig. Os nad ydych wedi'ch cofrestru ag RPW Ar-lein a'ch bod am wneud cais, ddarllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru ar y ddolen hon Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein.

Dyma'r canllawiau ar sut i gyflwyno'ch cais ar RPW Ar-lein Cynllun Buddsoddi Mewn Busnesau Gwledig Anamaethyddiaeth

Mae croeso ichi ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi'ch cais a'ch cynllun busnes. **Ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir a bod yr wybodaeth a ddarparwch i gefnogi'ch prosiect hefyd yn gywir.**

# Y BROSES ASESU DAU GAM

Ar gyfer rownd hon RBIS (Anamaethyddol), caiff eich ffurflen gais ar-lein ei hasesu mewn dau gam.

Yng Ngham 1, caiff rhannau canlynol y cais eu hasesu a'u sgorio yn ôl y meini prawf dewis.

- Ffit Strategol
- Cyflawni'r Prosiect
- Addasrwydd yr Ymyrraeth
- Cynaliadwyedd Hirdymor
- Gwerth am Arian.

## Cam 1 – Eich Asesu ar gyfer eich Dewis

**Ar gyfer cam 1 asesu RBIS (Anamaethyddol),** caiff pob cais ei asesu yn ôl set o feini prawf a'i sgorio gan ddefnyddio graddfa 0 i 4 sydd wedi'u nodi y y tabl isod ag eithrio Gwerth am Arian, lluosir y sgôr hon wedyn â'r ffactor pwysoli i roi sgôr derfynol.

| Gallu | Tystiolaeth a Ddarparwyd | Sgôr |
|---|---|---|
| Mae'r wybodaeth a ddarparerir yn y cais am grant yn ddigon clir a chadarn i ddangos hyder yn y cyflawni. | Mae'r cynnwys yn gyson, yn gynhwysfawr, yn dwyn perswâd ac yn uniongyrchol berthnasol i'r cynllun grant ym mhob ffordd ac yn hynod gredadwy. | **4** |
| Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am grant yn dangos risg bychan i gyflawni. | Mae bylchau bach yn y cynnwys, neu nid yw'n dwyn perswâd i ryw raddau, nid yw'n gredadwy neu'n berthnasol i'r cynllun. | **3** |
| Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais yn dangos risg cymhedrol o gyflawni. | Mae bylchau cymedrol yn y cynnwys, ac felly mae'n amheus. | **2** |
| Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am grant yn dangos risg sylweddol i gyflawni. | Mae bylchau mawr yn y cynnwys, nid yw'n dwyn perswâd mewn sawl ffordd, nid yw'n gredadwy, ac/neu mae'n amherthnasol i raddau helaeth i'r cynllun. | **1** |
| Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am grant yn dangos nad yw'n bosibl cyflawni'r prosiect fel y'i disgrifiwyd. | Mae'r cynnwys yn gamarweiniol, yn amherthnasol neu'n anghymwys. | **0** |

Caiff y ceisiadau eu rhoi yn nhrefn eu teilyngdod. Caiff y prosiectau eu dewis yn eu trefn tan na fydd arian ar ôl neu tan y byddwn wedi cyrraedd uchafswm nifer y ceisiadau. Ni allwn warantu y caiff yr holl arian ei neilltuo, na chwaith y caiff uchafswm nifer y prosiectau eu dewis ar gyfer cam 2 y broses.

Dyma'r meini prawf ar gyfer dewis.

| Meini Prawf Dewis | Meini Prawf y Cynllun Busnes/Prosiect a asesir ar gyfer eu dewis | Sgôr | Ffactor Pwysoli |
|---|---|---|---|
| Datblygu Cynaliadwy | Ffit Strategol | 0 - 4 | x 4 |
| Trosiant | Addasrwydd y Buddsoddiad | 0 - 4 | x 5 |
| Arloesi | Cyflawni'r Prosiect | 0 - 4 | x 3 |
| Cyflogaeth | Cynaliadwyedd Hirdymor | 0 - 4 | x 2 |
| Gwerth am Arian | Gwerth am Arian | 0 - 4 | x 3 |

Ni chaiff yr un cais fynd yn ei flaen heb gael sgôr o o leiaf 20. Byddai sgôr o 1 neu 0 mewn unrhyw faen prawf yn golygu na chaiff y cais fynd yn ei flaen i gam 2 y broses.

Ar gyfer pob maen prawf, bydd yr asesiad yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r esboniadau y byddwn wedi'u cael.

Bydd sgôr uwch yn cael ei rhoi am esboniadau llawn, gydag enghreifftiau o weithgareddau a gynigir a sut ydych am reoli'r gweithgareddau hynny.

Rhoddir sgôr is am esboniadau sydd fawr gwell na datganiad syml o fwriad, er enghraifft "byddwn yn cynnal cyfarfodydd â rhanddeiliaid yn rheolaidd gydol y prosiect".

## Datblygu Cynaliadwy – Cyweddu Strategaethau

Er mwyn i brosiect fodloni Cyweddu Strategaethau'r cynllun, mae angen i ymgeiswyr ddangos sut y bydd y Prosiect yn cyfrannu un neu fwy o'r amcanion strategol canlynol:

a) arallgyfeirio'r economi wledig,
b) datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion naturiol,
c) cynyddu cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chystadleurwydd busnesau gwledig.

Bydd angen i ymgeiswyr hefyd nodi sut y bydd y Prosiect yn cyfrannu at un neu fwy o'r amcanion thematig canlynol:

- hyrwyddo a datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion naturiol
- datblygu delwedd ecogyfeillgar yn seiliedig ar ddulliau cynhyrchu cynaliadwy
- cynyddu gwydnwch y cadwyni cyflenwi i wrthsefyll newidiadau yn y farchnad sy'n hyrwyddo arloesedd technolegol mewn cynnyrch a phrosesau
- darparu cyfleoedd gyrfa a datblygu sgiliau ar lefelau sgiliau amrywiol
- arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol er mwyn cynnig ffrwd incwm amgen i wneud busnes yn fwy cynaliadwy

## Trosiant – Addasrwydd yr Ymyrraeth

Rhowch eich asesiad o sut y bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar y busnes a pha newidiadau fydd y buddsoddiad yn eu gwneud i'r busnes. Eglurwch pa fantais gystadleuol a gaiff y buddsoddiad hwn.

Gall croesawu offer a thechnegau arloesol wella effeithlonrwydd, creu cyflogaeth a chynyddu cystadleurwydd. Mae effeithlonrwydd adnoddau yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau economi llesiant yn ogystal â lleihau allyriadau. Anogir ymgeiswyr i ystyried sut y bydd eu cynlluniau'n effeithio ar yr amgylchedd a pha effaith y byddant yn ei chael ar newid yn yr hinsawdd. Disgrifiwch sut yr ydych wedi ystyried hyn, sut y bydd eich prosiect yn gwneud cyfraniad cadarnhaol ac unrhyw ganlyniadau yr ydych yn disgwyl eu cyflawni.

Disgrifiwch sut y bydd y buddsoddiad yn cynyddu cynhyrchiant a throsiant, gan roi esboniad o unrhyw dybiaethau a wneir yn yr amcanestyniadau hyn. Mae cynnydd mewn trosiant yn arwydd o effaith economaidd ychwanegol sy'n helpu i gyflawni un o amcanion allweddol Rhaglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru.

## Arloesi – Cyflawni

Diffinnir hyn fel cynnyrch neu farchnad newydd. Rhaid i ddiwydiant economaidd fyrlymus sy'n edrych tua'r dyfodol fod yn arloesol i gipio marchnadoedd a symud tua'r dyfodol. Rhaid i brosiectau ddangos lefel eu harloesedd.

Bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddangos y bydd ganddynt ddigon o adnoddau a chapasiti ar gael i gyflawni'r Prosiect yn llwyddiannus. Bydd angen iddynt ddarparu cynllun rheoli prosiect clir, gan gynnwys amserlen sy'n manylu ar gerrig milltir allweddol. Bydd angen i ymgeiswyr nodi hanes y tîm rheoli a'r staff allweddol a fydd yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r Prosiect. Dylent egluro sut y caiff y gwaith ei reoli a nodi'r prif risgiau i gyflawni'n llwyddiannus a sut y gellid lliniaru'r rhain.

## Cyflogaeth – Cynaliadwyedd Hirdymor

Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n creu cyfleoedd gwaith cyflog ychwanegol. Bydd yn arwydd ei fod yn ychwanegu at yr effaith economaidd i helpu i gyflawni un o brif amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Ni ddylid cynnwys swyddi newydd sydd ar gontractau dim oriau yng ngwerth gros y cyflogau. Os yw'r busnes yn is-gwmni neu wedi'i rhannu rhwng safleoedd gwahanol, dylid cyfrif yn unig y swyddi a greir ar safle'r prosiect yn unig. Rhaid i'r swyddi gael eu creu o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

## Gwerth am Arian – Gwerth am Arian

Mae angen i'r prosiectau ddangos eu bod yn rhoi gwerth am arian. Bydd prosiectau'n cael eu rhoi yn eu trefn o'u cymharu â cheisiadau eraill ar sail y cynnydd a ragwelir yn y trosiant o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau'r prosiect (a), wedi'i rannu â gwerth y grant (miloedd) (b).

E.e. pe bai prosiect yn rhagweld creu 2 swydd a diogelu swyddi mewn 3 mlynedd yn gwneud cais am grant o £20,000 gwerth (a/b) fyddai 0.1, byddai prosiect sy’n rhagweld creu 5 swydd a diogelu swyddi mewn 3 mlynedd sy’n gwneud cais am grant o £40,000 byddai gwerth (a/b) yn 0.25.

Caiff gwerthoedd (a/b) holl brosiectau’r cyfnod ymgeisio eu rhoi yn eu trefn a chaiff y sgoriau eu rhoi fel a ganlyn:

| Sgôr | |
|---|---|
| 4 | Y swyddi a grewyd a’r swyddi a ddiogelwyd/grant (a/b) ymhlith yr 0-20% uchaf o Ymgeiswyr |
| 3 | Y swyddi a grewyd a’r swyddi a ddiogelwyd/grant (a/b) ymhlith yr 21-40% uchaf o Ymgeiswyr |
| 2 | Y swyddi a grewyd a’r swyddi a ddiogelwyd/grant (a/b) ymhlith y 41-60% uchaf o Ymgeiswyr |
| 1 | Y swyddi a grewyd a’r swyddi a ddiogelwyd/grant (a/b) ymhlith y 61-80% uchaf o Ymgeiswyr |
| 0 | Y swyddi a grewyd a’r swyddi a ddiogelwyd/grant (a/b) ymhlith yr 81-100% uchaf o Ymgeiswyr |

**Mae tri chanlyniad posib i gam 1 yr asesiad**:

1. Nid yw’ch cais yn gymwys am grant; .
2. Nid yw’ch cais wedi’i ddewis ar gyfer ail gam yr arfarniad;
3. Mae’ch cais wedi llwyddo yn y cam cyntaf a chaiff fynd yn ei flaen i’r ail gam.

## Cais sy’n llwyddiannus yng Ngham 1

Os caiff eich cais ei ddewis, rhoddir gwybod ichi ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Rhaid ichi dderbyn neu wrthod y cynnig trwy lenwi a dychwelyd yr Atodiad i’r Cais i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad fydd wedi’i nodi yn eich llythyr. Bydd yr Atodiad wedi’i atodi wrth y llythyr sy’n eich hysbysu’ch bod wedi’ch dewis.

Os byddwch yn hapus eich bod wedi’ch dewis, caiff eich cais fynd yn ei flaen i ail gam y broses arfarnu.

Efallai y bydd eich llythyr sy’n eich hysbysu’ch bod wedi’ch dewis yn cynnwys cynnig i fynd â’ch prosiect yn ei flaen ‘ar fenter’. Hynny yw, eich bod yn dechrau’ch prosiect cyn bod grant yn cael ei gynnig yn ffurfiol i chi. Os oes cynnig ar fenter yn cael ei wneud, cewch ragor o fanylion bryd hynny.

Oni bai bod cynnig ‘ar fenter’ yn cael ei wneud pan fyddwch yn cael eich dewis, **peidiwch â dechrau unrhyw waith nes ichi gael cadarnhad ysgrifenedig ar eich cyfrif RPW Ar-lein gan Lywodraeth Cymru. Ni chaiff unrhyw brosiect sy’n torri’r rheol hon ei ystyried am gymorth.**

Os na fyddwch wedi derbyn y cynnig neu os na fyddwch yn ateb Llywodraeth Cymru erbyn y dyddiad yn y llythyr, ni chaiff eich cais fynd ymhellach a chaiff y cynnig i’ch dewis ei dynnu’n ôl.

Os nad yw'ch cais yn bodloni meini prawf y cynllun neu os na chaiff ei ddewis, rhoddir gwybod ichi ar eich cyfrif ar-lein.

## Cam 2 – Arfarniad llawn o'r cais ar ôl ei ddewis

Os caiff ei ddewis, bydd y cais yn mynd yn ei flaen i Gam 2 a chaiff yr adrannau canlynol eu hasesu i gwblhau'r arfarniad.

- Ariannol a Chydymffurfio
- Dangosyddion a Chanlyniadau
- Themâu Trawsbynciol
- Rheoli'r Gwaith

Bydd arfarniad ail gam yn cael ei gynnal o geisiadau fydd wedi llwyddo yng Ngham 1. Bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried ar gyfer cynnig grant.

Caiff y cais ei arfarnu yn unol â Chanllawiau'r Cynllun a'r rheolau ynghylch pwy sy'n gymwys. Caiff archwiliadau ac arfarniad llawn o'u diwydrwydd dyledus eu cynnal a dim ond bryd hynny y caiff penderfyniad terfynol ei wneud i gynnig grant neu i wrthod y cais. Nid oes gwarant y caiff cynnig am brosiect ei gymeradwyo ar gyfer grant. Ein nod yw arfarnu'r cais o fewn 90 diwrnod ar ôl ei dderbyn. Efallai y bydd angen mwy o amser os yw'r cais yn un cymhleth. Os byddwch yn araf yn ateb cwestiynau, gallai hynny estyn yr amser.

## Cynllun y Busnes/Prosiect

Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am grant trwy Raglenni Gwledig 2014–2020 lunio Cynllun Prosiect. Mae templed safonol wedi'i baratoi, a'i rannu'n ddeg pennawd.

Caiff yr wybodaeth a roddir o dan bob pennawd ei defnyddio i asesu a gwerthuso, a bydd y broses hon yn penderfynu a ddylid rhoi grant i'r prosiect neu beidio.

Bydd yr wybodaeth a roddir yn cael ei hasesu yn erbyn y meini prawf sgorio canlynol:

| **Uchel** |
|---|
| Mae'r ymgeisydd wedi rhoi ymatebion trylwyr a manwl o ran yr holl dystiolaeth y gofynnir amdani |
| **Canolig** |
| Mae'r ymgeisydd wedi rhoi ymatebion boddhaol a manwl o ran y rhan fwyaf o'r dystiolaeth y gofynnir amdani |
| **Isel** |
| Mae'r ymgeisydd wedi rhoi ymatebion anghyflawn neu'n annigonol o ran un neu fwy o'r darnau o dystiolaeth y gofynnir amdani |

Rhif y Fersiwn: 2
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Bydd gofyn i Gynllun y Prosiect gael o leiaf sgôr ‘Canolig’ o dan bob un o’r deg categori. Os na all, bydd angen i’r ymgeisydd ddatblygu’r Cynllun a rhoi rhagor o wybodaeth nes ei fod yn cael sgôr foddhaol. Heb sgôr foddhaol, caiff y prosiect ei wrthod.

**Pwysig: gallai gorfod gofyn ichi am ragor o wybodaeth arafu proses asesu’r cais felly rydym yn eich cynghori’n gryf i ddilyn y canllawiau’n fanwl a darparu’r wybodaeth y gofynnir amdani. Ond os bydd unrhyw beth yn aneglur neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, fe wnawn ni gysylltu â chi.**

**Mae dau ganlyniad posibl i arfarniad Cam 2:**

1. mae’ch prosiect yn gymwys ar gyfer ei ystyried ond nid yw wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer grant. Rhoddir gwybod ichi’r rhesymau pam na fu’ch cais yn llwyddiannus. Cewch wneud cais eto gyda’r un prosiect (gan newid y cais os oes angen) **ond dim ond os nad ydych wedi dechrau ar y gwaith.**

2. mae’ch prosiect yn gymwys ac wedi’i gymeradwyo ar gyfer grant. Caiff contract ei roi i chi trwy’ch cyfrif RPW Ar-lein fydd yn nodi holl delerau ac amodau’r grant. Gofynnir ichi ei dderbyn o fewn 30 niwrnod i ddangos eich bod yn cytuno â’r amodau a’r telerau hynny. Bydd y contract yn rhoi’r awdurdod ichi ddechrau ar y gwaith. Os na fyddwch wedi derbyn y contract o fewn y 30 niwrnod, caiff y contract ei dynnu’n ôl.

Os byddwch chi’n penderfynu gadael y contract cyn iddo orffen neu os na fyddwch yn cwblhau’r holl waith sydd wedi’i gymeradwyo o dan y contract, mae’n bosibl na chewch wneud cais i’r RBIS mewn rowndiau wedi hynny ac efallai y bydd gofyn ichi ad-dalu unrhyw arian sydd wedi’i dalu i chi.

Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, bydd yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a’r CE yn cadw’r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o’ch prosiect.

## AMODAU'R GRANT

Mae Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd) yn ddarostyngedig i amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynnydd weithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth honno.

Mae’r grant a gynigir o dan yr RBIS (Bwyd) yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a amlinellir isod. **Gallai peidio â bodloni telerau ac amodau’r dyfarniad arwain at ganslo’ch dyfarniad a/neu at adennill y symiau sydd eisoes wedi’u talu i chi, neu leihau cyfanswm y grant sy’n daladwy.**

Os cynigir grant i chi, byddwn yn cynnig contract i chi trwy’ch cyfrif RPW Ar-lein, a bydd yn rhaid ichi ei dderbyn o fewn 30 niwrnod.

**Amodau:**

- Rhaid derbyn y grant a ddyfernir o fewn 30 niwrnod i'r dyddiad ar lythyr cynnig y contract ar RPW Ar-lein. Rhaid ichi dderbyn neu wrthod y contract a gynigir i chi trwy bwyso ar y botwm glas ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

- Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

  **Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug.**

- Ni ddylech ddechrau gweithio ar y prosiect nes y byddwch wedi cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.

- Rhaid i chi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a wnaed o dan gyfraith y DU a'r UE, gan gynnwys cyfraith hylendid.

- Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

- Ni chewch gael gwared ar unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant, ei drosglwyddo na'i werthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn ystod y prosiect nac am bum mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect.

- Rhaid ichi gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys.

- Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno ar dudalen hawlio Gwaith Cyfalaf RPW Ar-lein a chyda'r holl ddogfennau sy'n angenrheidiol o dan y Cynllun.
- Rhaid i'r hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y llythyr cynnig grant. Rhaid ichi beidio â newid yr amserlen y cytunwyd arni na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

- Rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf o fewn chwe mis i ddyddiad derbyn y grant.

  **Os nad yw'r hawliad cyntaf yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwn, bydd y cynnig grant yn cael ei derfynu'n awtomatig.**

- Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni ddylech ei newid heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

- Dim ond ar gyfer gwariant sydd wedi'i dalu y gellir rhoi'r grant, hynny yw, taliadau sydd wedi'u clirio o gyfrif banc.

- Rhaid i chi gadarnhau nad yw unrhyw un o'r eitemau sy'n rhan o'r cais yn eitemau a brynwyd yn lle eitemau eraill o dan hawliad yswiriant.

- Mae’n rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (boed hynny o ffynonellau’r Undeb Ewropeaidd neu’r Deyrnas Unedig).

- Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i’r prosiect gyfeirio at y cyfraniad a wnaed gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei ariannu.

- Rhaid i gofnodion ynghylch gweithgarwch y busnes a’r gwaith o ddarparu’r prosiect, gan gynnwys anfonebau gwreiddiol a dogfennau perthnasol eraill megis dyfynbrisiau neu dendrau cystadleuol, gael eu cadw tan 2030.

- Mae’n rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop archwilio’r prosiect. Ar gais, rhaid i chi ddarparu gwybodaeth a/neu fynediad at ddogfennau gwreiddiol mewn perthynas â’r prosiect.

- Mae’r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

  **Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech chi fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a’r UE yn cadw’r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o’ch prosiect.**

Mae’r wybodaeth a ddarperir yn y cais yn destun yr Hysbysiad Preifatrwydd.  Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio’r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio’ch data personol a’ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## GOFYNION CAFFAEL A THENDRO CYSTADLEUOL LLYWODRAETH CYMRU

Rhaid ichi ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a gofynion y Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol ar gyfer Caffael a Thendro Cystadleuol trwy’r ddolen at Nodiadau Cyfarwyddyd.

**Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus - Nodiadau Canllaw Technegol**

**Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus - Cofrestr a Chofnod**

## TALU GRANT

Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod eich prosiect.  Bydd nodiadau cyfarwyddyd ynghylch sut i hawlio ar gael ar RPW Ar-lein unwaith y bydd y grant wedi’i gadarnhau.   Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi’i wneud a bod y gwaith wedi’i gwblhau yn unol â’r cynllun y bydd

hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol ar y prosiect, ac o fewn 18 mis o gymeradwyo'r grant. Os na fyddwch wedi gallu cyflwyno hawliadau, efallai y bydd yn rhaid ichi dalu'r grant a dalwyd yn ôl.

Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, cynhelir ymweliad â'r safle ynghyd ag asesiad manwl o'r prosiect. Mae'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad yn cynnwys anfonebau gwreiddiol, rhifau cyfresol/offer, tystysgrif gwblhau Rheoliadau Adeiladu (os yn briodol); system Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys dadansoddiad risg; dogfennau Asesu Risgiau Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; cofnodion y Drefn Lanhau, cofnodion Rheoli Plâu a chofnodion Rheoli Ansawdd. Caiff y grant ei dalu ar yr amod y gwneir cynnydd digonol.

## HAWLIADAU ANGHYWIR A CHOSBAU

Mae cyfrifoldeb arnoch i sicrhau bod pob hawliad sy'n cael ei gyflwyno yn rhifyddol gywir; ei fod ar gyfer gwariant sydd wedi'i wneud (bod yr arian wedi gadael eich cyfrif banc), bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.

Os yw'r hawliad yn anghywir, bydd eich hawliad yn cael ei leihau i'r cyfanswm cymwys a bydd y grant i'w dalu yn cael ei gyfrifo yn unol â hynny. Fodd bynnag, os yw'r camgymeriad yn fwy na 10% o'r cyfanswm sy'n cael ei hawlio, yna bydd cosb ariannol fel y disgrifir isod.

Bydd swm y gwariant cymwys yn cael ei ostwng yn ôl swm y camgymeriad ac felly bydd cyfanswm y grant i'w dalu yn is na'r disgwyl. Bydd yn rhaid ichi dalu'r gwahaniaeth gan na ellir cynnwys y grant a gollwyd mewn hawliadau diweddarach.

Mewn rhai amgylchiadau, gellid cynyddu'r gosb, gan adennill y swm cyfan a dalwyd hyd y dyddiad hwnnw. Os bydd hynny'n digwydd, ni fyddwch yn gallu cyflwyno cais o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau (Bwyd) yn ystod gweddill blwyddyn gyfredol Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig na'r flwyddyn ganlynol.

Os oes gennych unrhyw amheuon am unrhyw beth y bydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect, mae'n hanfodol eich bod yn cael cadarnhad ysgrifenedig o'i gymhwysedd cyn ichi ysgwyddo unrhyw gostau.

## TROSEDDAU

Mae rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau (Bwyd). Mae enghreifftiau o droseddau yn cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

## MONITRO PROSIECTAU

Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl iddo gael ei gwblhau. Bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn unol â'r amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect yn cyrraedd y targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, na fyddai'n gymwys i gael cymorth grant o dan y cynllun, gellid cymryd camau i adennill y grant sydd wedi'i dalu.

Ar ôl derbyn y grant, bydd yn ofynnol bod y cyfarpar a brynwyd gyda chymorth grant trwy'r RBIS (Bwyd) ac unrhyw adeiladau y telir grant arnynt yn cael eu cadw yn y fan a'r lle, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at yr un diben ag a amlinellwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect fan leiaf, fel y nodwyd yn y llythyr cymeradwyo. Bydd hyn yn sicrhau hirhoedledd y prosiect ac yn sicrhau y bydd cynhyrchwyr cynradd yn gallu elwa ar fanteision y prosiect yn y tymor hir.

Bydd angen llenwi ffurflen fonitro arall ddwy flynedd ar ôl cwblhau'r prosiect, ac eto bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect. Ymwelir â chanran o'r prosiectau a gymeradwywyd o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r prosiect (Dyddiad Diwedd y Prosiect) i sicrhau bod yr ymgeisydd yn dal i ddefnyddio'r cyfarpar a brynwyd gyda'r grant a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwnnw o bum mlynedd.

## DIWEDD Y CYNLLUN BUDDSODDI MEWN BUSNESAU GWLEDIG (ANAMAETHYDDOL)

Rhaid i bob hawliad gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r proffil taliadau y cytunwyd arno ac o fewn 18 mis ar ôl ei gymeradwyo ac erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf. Mae'n rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn da bryd i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwnnw.

## GWEITHDREFN APELIO

Os bydd cais yn cael ei wrthod, bydd y rhesymau dros hynny'n cael eu disgrifio'n glir. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y

prosiect yn dderbyniol.

Mae'r broses apelio annibynnol yn caniatáu ichi ofyn am adolygiad os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad cywir yn unol â rheolau'r cynllun.

Mae'r broses apelio wedi'i rhannu'n ddau gam:

Cam 1: adolygiad gan RPW

Cam 2: adolygiad gan Banel Apelau Annibynnol (os ydych yn anhapus ag ymateb Cam 1).

Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n penderfynu'n derfynol ar y mater ac yn dod â'r broses i ben.

Nid oes tâl am gynnal Cam 1 y broses ond mae tâl am gynnal Cam 2 - £50 am wrandawiad ysgrifenedig neu £100 am wrandawiad llafar. Byddwn yn ad-dalu'r costau hyn yn llawn os bydd Cam 2 yr apêl yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

Rhaid i apeliadau, gan gynnwys y dystiolaeth, ddod i'n llaw o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg a bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg os mai dyna'ch dymuniad. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.

Cewch ragor o wybodaeth am y broses apelio trwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ar ein gwefan yn:

https://llyw.cymru/apeliadau-grantiau-a-thaliadau-gwledig

## GWEITHDREFN GWYNO

Ymdrinnir â chwynion o dan weithdrefn Llywodraeth Cymru ar gwynion.  Cewch ragor o gyngor ar sut i gwyno gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 251378
E-bost: complaints@gov.wales
www.gov.wales/contact_us/makeacomplaint
Gallwch hefyd ddewis cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:
1 Ffordd yr Hen Gae
Pen-coed,
CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203

## Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA: HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae'r wybodaeth yn y cais datganiad o ddiddordeb a'r cais llawn yn ddarostyngedig i'r Hysbysiad Preifatrwydd yn:

Hysbysiad Preifatrwydd Grantiau a Thaliadau Gwledig

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018.

Bydd y data personol a ddarperir yn cael ei gadw ar gronfa ddata ac yn cael ei brosesu gan Lywodraeth Cymru at ddibenion delio â cheisiadau a hawliadau am gyllid o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Ceir rhannu'r wybodaeth a ddarperir gydag Adrannau Llywodraeth y DU, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu asiantaethau yng Nghymru at ddibenion archwilio, ymchwil, diwallu rhwymedigaethau statudol ac er mwyn atal a chanfod twyll. Ni fydd data personol yn cael ei wneud yn gyhoeddus mewn unrhyw ffordd sy'n golygu bod modd adnabod unigolion, heb ganiatâd. Bydd data penodol yn cael ei drosglwyddo i'r Comisiwn Ewropeaidd yn unol â Rheoliadau'r GE.

Ceir hefyd trosglwyddo data ymlaen i gontractwyr cefnogaeth Llywodraeth Cymru er mwyn datrys problemau system. Ni chaiff y contractwyr hyn ddefnyddio'r data hwn mewn unrhyw ffordd arall.

Os ydy unrhyw un y mae gennym ddata amdano yn dymuno cael manylion y data personol sy'n cael ei gadw ar gronfa ddata ganolog Llywodraeth Cymru, gall gysylltu ag Uned Rheoli'r Cynllun ar 03000 622 218.

Ni fydd dim byd yn y ddogfen hon yn disodli darpariaethau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018.

# CYSYLLTIADAU

## RPW Ar-lein

Gallwch gael mynediad at wasanaeth RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth www.gateway.gov.uk, neu ar ôl i chi gofrestru ar gyfer gwasanaeth RPW Ar-lein gallwch gael mynediad ato trwy https://llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein. Os nad ydych wedi cofrestru ar RPW Ar-lein, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru ar wefan Llywodraeth Cymru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer pob ymholiad, cysylltwch â **Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.** Gellir cyflwyno ymholiadau ar RPW Ar-lein unrhyw adeg.

## Mynediad i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig nad yw ein cyfleusterau'n darparu ar eu cyfer yn eich tyb chi, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Yna, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gorau i wneud trefniadau a fydd yn darparu ar gyfer eich anghenion.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, edrychwch ar wefan Llywodraeth Cymru. Wrth ymweld â'r wefan, gallwch hefyd gofrestru i gael yr e-gylchlythyr Gwlad.